CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION CYFARFOD MISOL 29ain O FAI 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S

1. CROESO'R CADEIRYDD

Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Misol gan y Maer Christopher Thomas, y Cadeirydd.

YN BRESENNOL

Y Maer Christopher Thomas; Cecilia Barton; Andrew Carter; Elsie Dafis, Margaret Davies-Evans; Greg Evans; Robert Harris; Lynda Mason-George; Robert Phillips; Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.

Arolygydd yr Heddlu Calvin Griffiths; Yr Heddferch Jo Grey; Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) Ryan Jones.

2. YMDDIHEURIADAU

Cyng. John Davies; Selwyn Walters.

3. DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL

Dim

4. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD - 24/04/2008 a'r 8/05/2008

Derbyniwyd cofnodion Mis Ebrill fel rhai cywir, gan gynnwys rhai'r cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar yr 8/05/2008, arwahân i'r newidiadau a ganlyn:

4.1 Bu y Cyng. C.Barton a G.Evans yn bresennol yn ystod y Cyfarfod o'r 24ain o Ebrill;

4.2 10.1.3 – nid yw'r gost o £360 ar gyfer tocio coed ym Mharc-yr-orsedd ond yn hytrach ger y Gofgolofn.

4.3 Mae'r tâl ar gyfer y blodau a nodwyd ym mharagraff 9.6, heb ei dalu o gronfa'r Cyngor Tref.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

Adroddodd Arolygydd yr Heddlu (AH) Calvin Griffiths ar y materion a ganlyn:

5.1 Gofal yr Heddlu'n Llanbedr Pont Steffan

Mynegwyd pryder dros lefel gwasaneth yr heddlu yn Llambed ar ôl clywed mai ond un car yr heddlu oedd yn gofalu am y dref dros oriau'r nos. Dywedodd yr AH Griffiths fod y cyfanswm cywir o swyddogion wedi eu lleoli yng Ngorsaf yr Heddlu Llambed, ar hyn o bryd h.y. roedd16 Swyddog wedi eu clustnodi i ddarparu gofal di-dor dros yr ardal. Lleolir 12 o Swyddogion yn Aberaeron. Os arestiwyd person yn ystod y nos, cyfeiriwyd car yr heddlu i Aberystwyth, yr unig le yng Ngheredigion ble lleolir bloc gwarchod 24 awr, gan adael gofal y dref yn nwylo Swyddogion o Aberaeron, 13 milltir i ffwrdd. Petai arestiad yn cymryd lle'n Aberaeron byddai gorfodaeth ar Swyddogion Llambed i ofalu dros ardal eangach nes i'w cydweithwyr orffen eu tasgau.

Ynglŷn â'r ymateb i'r mater a godwyd sef bod, "yna deimlad nad oedd yr amser a gymerwyd i ymateb i alwadau'n ddigonol", dadleuwyd mai ddiffyg adnoddau oedd yn gyfrifol a hefyd roedd ardal enfawr a gwasgaredig yng ngofal yr heddlu. Byddai cyflogi mwy o swyddogion yn datrys y broblem ond byddai angen cyllid ychwanegol i'w wireddu. Gelwid yn achlysurol ar

wasanaeth Swyddogion o Aberystwyth ac Aberaeron i roi help llaw i'r heddlu'n Llambed. Gwnaed yr AH Griffiths gais am 2 swyddog ychwanegol ar gyfer Aberaeron a Chei Newydd dros fisoedd yr haf er mwyn galluogi Swyddogion Llambed i aros yn y dref.

Penderfynwyd anfon llythyr at yr Uwcharolygydd Alun Harries ym Mhencadlys yr Heddlu'n Aberystwyth i ofyn am gynnydd yn lefel gwasanaeth yr heddlu'n ystod oriau'r nos. Y barn cyffredinol oedd bod yr amser a gymerwyd i ymateb i alwadau brys yn ddiffygiol. Yn enw democratiaeth leol, teimlwyd bod preswylwyr y dref yn deilwng o gwell gwasanaeth.

5.2 Nifer o Droseddau
Trafod y gymharol nifer isel o droseddau yn yr ardal, ac yn ôl yr Arolygydd Griffiths, roedd y nifer o droseddau'n "syrthio bob mis".

5.3 Adroddwyd fod Heddlu Llambed yn trafod pryderon gyda aelodau'r cyhoedd ee cŵn yn baeddu yn gyffredinol yn y dref, ac yn enwedig ar Stâd Maesyderi; ac roedd gwelliannau'n cael eu gweithredu.

5.4 Soniodd y Cyng. Carter am ladrad-olew a rhybyddiwyd y cyhoedd i fod yn wyliadwrus.

5.5 Parcio ar balmantau Heol y Porthmyn: Dywedwyd fod Warden Traffig yn archwilio'r strydoedd yn reolaidd a chosbwyd y rhai hynny a oedd yn euog.

5.6 Ardal Di-Alcohol ar Gyfer Llambed
Trafodwyd yr Ardal Di-Alcohol ar gyfer y dref. Yn ôl yr Arolygydd roedd, "o dan sylw" a'i angen yn cael ei asesu. Cyflwynwyd Ardal Di-Alcohol yn Aberystwyth tair blynedd yn ôl, ond amherthnasol oedd cymharu'r ddwy dref oherwydd "prysurdeb nos" tref Aberystwyth. Byddai cynllun o'r fath yn caniatau swyddogion i ddwyn cynwysyddion agored o feddiant pobl a byddai'r hawl ganddynt i arestio y rhai hynny a fyddai'n gwrthod gwneud hynny.
Yn sgîl y drafodaeth gresynwyd y ffaith gan rai aelodau, fod y sefyllfa bresennol yn amharu'n anffarfiol ar y Fasnach Dwristiaeth y dref.

Ar derfyn y drafodaeth, diolchodd y Maer Christopher Thomas yr heddlu lleol am eu cymorth, cyngor a chefnogaeth di-flino yn ystod yr amser pan fu'n Faer y dref.

Mater arall yn ymwneud â'r heddlu ond ni drafodwyd gan yr heddlu:

5.7 Y sefyllfa parthed ymddygiad gwrthgymdeithasol o dan yr arch ger Neuadd y Dref:

Copi o'r llythyr Kate Butler at sylw Mr Dylan Wyn, Prifathro Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan, yn cyfeirio at ddisgyblion yr Ysgol Uwchradd yn ysmygu ac yn poeri o dan yr arch, Neuadd y Dref. Roedd yn holi tybed a fyddai'n bosibl i greu "Ardal Dim-Ysmygu" yn y fan honno. Penderfynwyd cyfleu iddi, fod pwerau'r Cyngor Tref yn gyfyng ac i gyfeirio'r llythyr at sylw'r heddlu lleol. Byddai'r Maer yn trafod anghyfreithlondeb ar ran masnachwyr, i werthu tybaco i bobl ieuainc o dan 18 mlwydd oed. Byddai'n cael ei gyfleu hefyd, fod yr ardal dan sylw yn "Ardal-Agored" ac anodd fyddai ei drosi'n "Ardal Di-Ysmygu", heb sefydlu deddf a wnaed gan yr Awdurdod Lleol. Byddai hyn yn cymryd amser hir ac yn anhebygol os gellir ei chyflwyno o gwbl.

Rhoddir cyfle i Mrs Butler i drafod eu phryderon ymhellach ag aelodau'r Cyngor Tref.

6. MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 Ystyried cyfethol aelod newydd ar gyfer y Cyngor Tref: Mae'r datganiad o ddiddordeb a ddangoswyd cynt, wedi ei dynnu'n ôl. Penderfynwyd darganfod a oedd yn orfodol i lenwi'r sedd. Derbyniwyd ymateb oddi wrth y Cyng D.Wilson a S.Walters yn derbyn y swydd o Faer a Dirprwy-Faer yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf.

6.2 Trefniadau ar gyfer Seremoni Urddo'r Maer 2008: Nos Wener 6ed o Fehefin am 6:30pm yn Neuadd y Dref. Trafodwyd y trefniadau ymhellach. Dywedwyd fod y Cyngor Sir wedi rhoi caniatâd i gynnal y seremoni yn Neuadd y Dref ar yr amod fod canllawiau penodedig yn cael eu dilyn.

6.3 Datblygiadau pellach ar ôl y Cyfarfod Agored o'r 13eg o Fai: Mae Pwyllgor wedi ei sefydlu a'r cyfarfod cyntaf i'w drefnu ar gyfer canol Mehefin. Penderfynwyd diolch i'r Coleg am y defnydd o'r Theatr Cliff Tucker ar gyfer y Cyfarfod Agored.

6.4 Y Ganolfan Ieuenctid Llambed; mae 3 Gweithiwr Ieuenctid yn gofalu am y Clwb Ieuenctid, sydd ar agor un noswaith yr wythnos yng Nghanolfan Steffan. Mae oddeutu 30 o bobl ieuainc wedi mynychu bob sesiwn cyn belled. Edrychir am leoliad newydd. Bwriedir sefydlu Pwyllgor Ieuenctid yn y dyfodol agos.

6.5 Y Darpariaeth o Arwyddion Newydd ar Gyfer y Dref: rhoddwyd ystyriaeth pellach i'r mater gan gynnwys eu dylunio a'r geiriau a ymddangosir arnynt. Adroddwyd na fyddai'r Cyngor Sir yn barod i gwrdd â'r gost, gan nad yw'r arwyddion presennol, yn eu barn hwy, mewn cyflwr annigonol i'w gwaredu. Penderfynwyd i ofyn, unwaith yn rhagor am gymorth ariannol o gronfa'r Cyngor Sir, ar ôl archebu'r arwyddion.

5.6 Biniau ar gyfer casglu gwastraff ailgylchadwy: gwnaed ymchwil pellach, ynglŷn â'r ddarpariaeth o finiau o'r fath gan y Cyng. Phillips. Penderfynwyd i glustnodi sylw pellach ar gyfer prynu 3 bin am amcanbris o £377 yr un, o bosibl dan y cynllun "Cadwch Cymru'n Daclus". (Croes-gyfeiriad 7.1)

6.7 Y sefyllfa parthed materion traffig gan gynnwys

6.7.1 Yr Arwydd "Rhoi Cyfle i draffig o Gyfeiriad Arall" Heol y Porthmyn;

Nid oes gan y Cyngor Sir unrhyw gofnod o wrthdrawiad sydd wedi achosi dolur personol ar y groesffordd yma, nac hefyd fod arwydd "Rhowch Gyfle i Draffig o Gyfeiriad Arall" wedi ei leoli yma'n y gorffennol. Mae Adran 3, fersiwn presennol Pennod 3 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig (sy'n manylu arwyddion "Rhoi cyfle i draffig o gyfeiriad arall") yn sôn nad oes angen arwyddion o'r fath ar groesffordd heolydd o lai ddefnydd lleol a phreswyl. Yn ogystal, er mwyn lleihau amlygrwydd gormodedd o wrthrychau gweladwy yn y ran yma o'r dref, byddai'r Cyngor Sir yn hwyrfrydig i leoli arwydd "Rhoi Cyfle i draffig o Gyfeiriad Arall" yma.

6.7.2 Diddymu'r llinellau melyn o flaen yr hen ysgol gynradd;

Bydd y Cyngor Sir yn ymgynghori ar waredu cyfyngiadau parcio presennol, i gyfeiriad ogleddol Heol-y-Bryn ac i'r gorllewin i'r tro ger y groesffordd Heol y Cambrian. Byddant yn gwaredu ag arwyddion sydd heb eu hangen bellach yn ogystal â marciau heol ger yr hen ysgol gynradd.

6.7.3 Loriau trwm hir a llwythog(THLL) sy'n teithio ar Stryd yr Eglwys a Bryn-yr Eglwys;

Bydd CSC yn lleoli arwyddion cynghori dwy-ieithog ar fynediad Heol yr Eglwys a Bryn-yr-Eglwys (ar y groesffordd Heol y Bryn) yn datgan nad yw'r heol yn addas ar gyfer loriau THLL. Arwyddion yn cynnig cyngor yn unig fyddant, ac nid yn orfodol i'w hufuddhau. Byddai gwaharddiad yn y man yma (gan gynnwys ymgynghoriaeth ayyb) yn gorfod caniatau mynediad i loriau dosbarthu nwyddau (ee olew) ac felly nid yn atal loriau THLL rhag defnyddio'r heol yn gyfangwbl.

Disgwylir ymateb Cyngor Sir Ceredigion i'r materion canlynol:

6.7.4 Sgriwiau'n rhydd-arwydd tu allan i Neuadd y Dref;
6.7.5 Y sment o gwmpas y "Man-hole" ger yr Archfarchnad Somerfield; &
6.7.6 Dŵr yn crynhoi ger mynedfa'r Orsaf Ambiwlans.

6.8 Bydd Mr Noel Davies yn derbyn y Tlws Cydnabyddiaeth Gwirfoddoli Ceredigion 2008 am ei wasanaeth i'r Lleng Prydeinig. Cynhelir y Seremoni yn y Neuadd Goffa, Aberaeron. Disgwylir presenoldeb y Maer.

6.9 Datblygiad Tai Newydd yn Heol y Wig; cynigodd y datblygwr yr enw Maes Hyfryd: gall cynigion gwahanol gael eu cyflwyno gan y Cyngor Tref. Wedi trafodaeth, penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd, hyd nes y cyfarfod nesaf.

7. GOHEBIAETH

7.1 Cynllun Tref Taclus: Penderfynwyd cymryd rhan yn y gystadleuaeth . Y Maer a'r Darpar Faer i gwblhau'r gwaith papur.
7.2 Ydy meysydd trydan a magnetig yn achosi leukaemia ym mhlentyndod? Adroddiad gan Dr Adrenne Morgan & Katie Martin: dosbarthwyd i'r aelodau.
7.3 Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Lleihau Risg Drafft 2009/10: er gwybodaeth.
7.4 Cynigion i newid strwythur y GIG yng Nghymru: adroddodd y Cyng. Barton iddi fynychu'r cyfarfod GIG yng Nghapel Brondeifi ar y 23ain o Fai. Bydd hi a'r Maer yn ymateb i'r Ymgynghoriaeth.
7.5 Hysbysiad am Gynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2008 Un Llais Cymru: Byddai'r Darpar-Faer a'r Cyng. D.Williams yn mynychu'r cyfarfod o'r 11eg o Hydref ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Gellir cyflwyno 2 gynnig. Y thema eleni fydd "Cynghorau Lleol a'r Amgylchedd".
7.6 Hysbysiadau cosb benodedig ar sbwriel, rheoli cŵn, graffiti, gosod posteri heb ganiatâd a throseddau sŵn LLCC: er gwybodaeth yn unig.
7.7 Cystadleuaeth Calor Pentref y Flwyddyn: penderfynwyd cystadlu.

7.8 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

8. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng. G.Evans:

8.1 Mae'r Cynllun y Dref Drawsnewidiol wedi ei ail-enwi i "Lambed Drawsnewidiol". Dyluniwyd logo newydd ar gyfer y cynllun. Dangoswyd frwdfrydedd neilltuol yn y meysydd gwahanol.

8.2 Adnoddau Chwaraeon: Dalier i ddisgwyl cymhorthdal.

9. CYNLLUNIO

9.1 Derbyniwyd un cais fel a ganlyn: Codi annedd: tir gerllaw Dan y Wenallt, Heol Glynhebog, Llambed. Ymgeiswyr: Mr & Mrs Julian Evans, Dan y Wenallt, Heol Glynhebog, Llambed. Rhif y cais: A080369. Sylwadau'r Cyngor Tref: Caniatawyd.

9.2 Derbyniwyd un dyfarniad (o GSC) - Codi tŷ a garej, Plot 5, Fferm Pontfaen, Llambed. Ymgeisydd: Mr AM Evans, Cwmhalen, 24 Haulfan, Aberaeron. Rhif y Cais: A080115. Caniatawyd.

10. CYLLID

10.1 Incwm: £43,220 Praesept: 2008-09 CSC

10.2 Gwariant:

10.2.1 Childline Cymru £25.00
10.2.2 Cynhadledd Un Llais Cymru £120
10.2.3 Cyflog y Clerc (Mai) £463.95
10.2.4 Treth Incwm (Inland Revenue) £86.58
10.2.5 Gwres a Golau £20.00
10.2.6 Lwfans y Maer £2,587.70
10.2.7 Offer Swyddfa Compass £82.16

10.3 Mae'r ffurflen PAYE wedi ei chyflwyno ar y cyfrifiadur.

10.4 Archwiliwr mewnol ar gyfer y Cyngor Tref: dim datblygiadau.

11. IS-BWYLLGORAU

11.1 Newidiadau ar gyfer is-bwyllgorau

Y Sefyllfa ar hyn o bryd:

11.1.1 Palmantau: Cyng C.Thomas; L.Mason-George; E.Dafis; R.Phillips.
11.1.2 Goleuadau: Cyng J.Davies; D.Williams; M. Davies-Evans; G.Evans;
11.1.3 Llwybrau Cerdded: Cyng A. Carter; R.Harris; S.Walters; C.Barton;
11.1.4 CTCC: Cyng R.Harris; R.Phillips; K.Ramaya; H.Davies (wedi ymddeol)
11.1.5 Yr Iaith Gymraeg: Cyng R.Phillips, D.Williams; C.Thomas; S.Walters.
Wedi trafodaeth penderfynwyd gadael y mater ar y bwrdd, hyd nes y cyfarfod nesaf. Enwebwyd y Cyng. Barton fel y cynrychiolydd newydd

Pwyllgor y Pwll Nofio, Llambed, yn dilyn ymddeoliad y Gyng. Hazel Davies.

11.2 LLWYBRAU CERDDED gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

11.2.1 Adleoli'r Bloc o graig ym Mharc-yr-Orsedd: ymholiadau ar y gweill.

11.2.2 Trwsio'r ffens/mynedfa newydd ar gyfer Parc-yr-Orsedd- datblygiadau pellach: Cyfarfu'r Maer, Darpar-Faer a'r Gyng D.Williams ynghynt yn y diwrnod i drafod y fynedfa newydd. Disgwylir amcanbris oddi wrth GSC.

11.2.3Plannu bwlbiau Cennin Pedr: derbyniwyd fwlbiau Cennin Pedr sy'n weddillion gan y Cyngor Sir. Gwnaed apêl am wirfoddolwyr i blannu'r bwlbiau.

10.2.4 Lappset: Offer Maes Chwarae: er gwybodaeth.

10.2.5 Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion Drafft Ymgynghori CSC: cytunodd y Cyng. Carter i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen.

11.3 PALMANTAU

11.3.1 Lleoli biniau ar gyfer gwaredu dom cŵn: penderfynwyd darganfod y gost o brynu a gwasanaethu'r biniau o GSC.

11.5 CTCC

11.5.1 Yr Adroddiad Misol – Mai – CSC: Cyflwynwyd un cais gan yr heddlu ar gyfer arsylwi ar ddeunydd digidol yn ymwneud â lladrad. Mae'r gwaith o uwchraddio'r ddolen radio ar gyfer camerau Llambed wedi dechrau ond nid yw wedi ei gomisiynu'n llawn cyn belled; gobeithir gwneud hyn yn y dyfodol agos.

11.5.2 Ymweliad â'r Ystafell Reoli Aberystwyth: dalier i ddisgwyl dyddiad cyfleus oddi wrth GSC.

12. U.F.A.

12.1 Does dim dŵr yn y ffynnon ar Sgwâr y Dref: i ddwyn at sylw'r CSC;

12.2 Mae yna broblemau'n bodoli ar y wal wrth gefn Banc Natwest a'r Archfarchnad Somerfield. Mae'r wal yn difrodi a defnyddir y rwbel gan blant fel taflegryn; i ofyn am gymorth y Cyngor Sir.

12.3 Penderfynwyd cyflwyno ysgolion cynradd ac uwchradd y dref a tharian, mewn cydnabyddiaeth o'u llwyddiant yn ystod arolygon ysgol, yn ddiweddar.

12.4 Datagnwyd llongyfarchion i'r Cwmni J & E Woodworks am y gwaith a gariwyd allan yng nghartref y Tywysog Siarl ym Myddfai, Llanymddyfri, yn ddiweddar: i anfon llythyr atynt;

12.5 Trafodwyd y posibilrwydd o wobrwyo unigolion sydd wedi cyfrannu'n werthfawr i'r gymdeithas, ar ôl iddynt gyrraedd penblwydd arbennig.

12.6 Penderfynwyd i gyflwyno Mrs Hazel Davies â tharian, mewn cydnabyddiaeth o'i chyfraniad cyfoethog i'r dref a'r Cyngor Tref.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10:00pm.

13. Dyddiad y Cyfarfodydd nesaf:

Seremoni Urddo'r Maer: 6ed o Fehefin 6:30pm Neuadd y Dref
Cyfarfod Misol Nesaf: Nos Iau 26ain o Fehefin am 7:30pm